



www.landuse.co.uk

Canllaw Cynllunio Atodol ar y Cyd:

Galluogi Datblygu Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd Mawrth 2015

Cynnwys

1	Cyflwyniad	2
	Pwrpas a strwythur y canllawiau hyn	2
	Pwrpas y System Gynllunio	3
	Cynllunio yn y Parciau Cenedlaethol	3
2	Cynllunio datblygiadau cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru	5
	A yw eich datblygiad yn cyd-weddu gyda phwrpasau a dyletswydd y Parc Cenedlaethol?	5
	Beth all gael ei adeiladu yn ble yn y Parciau Cenedlaethol?	6
	Ystyriaethau cynllunio ar gyfer pob datblygiad yn y Parciau Cenedlaethol	7
3	Ystyriaethau Cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad	13
	Tai	13
	Safleoedd sipsiwn a theithwyr	14
	Cyfleusterau cymunedol	14
	Datblygiadau cyflogaeth	15
	Datblygiadau ynni adnewyddadwy	18
	Datblygiadau telathrebu a llinellau trydan	18
	Datblygiadau Un Blaned (OPD)	18
4	Cyfeiriadau, dolenni a manylion cyswllt	20
	Dogfennau polisi cynllunio cenedlaethol	20
	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	20
	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	21
	Parc Cenedlaethol Eryri	21
	Canllawiau eraill	22
Atodiad 1		23
	Rhestr Termau	23

1 Cyflwyniad

Pwrpas a strwythur y canllawiau hyn

- 1.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Cyd (CCA) hyn yn ystyriaeth o bwys ar gyfer cynigion o fewn y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r CCA yn anelu at helpu ymgeiswyr cynllunio i ddeall beth mae datblygu cynaliadwy yn ei olygu ym Mharciau Cymru. Mae'n esbonio'r math a lleoliad datblygiadau sy'n debygol o fod yn dderbyniol yn y Parciau a'r prif egwyddorion y bernir ceisiadau yn eu herbyn.
- 1.2 Mae'n rhaid i geisiadau cynllunio yn y Parciau Cenedlaethol Cymru gydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru¹ a pholisi cynllunio lleol ym mhob Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod y Parciau Cenedlaethol a fabwysiadwyd yn ogystal â Chynlluniau Rheoli y Parc Cenedlaethol. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisi cynllunio newydd ond yn hytrach yn gweithredu fel 'porth' ar gyfer polisi cenedlaethol a lleol presennol, gan helpu ymgeiswyr cynllunio i ddod o hyd i'r cynlluniau a'r polisiâu perthnasol, ac i fynd o gwmpas y system gynllunio yn haws yn y Parciau Cenedlaethol.
- 1.3 Mae'r CCA yn cynnwys tair pennod bellach:
- Mae Pennod 2 yn nodi ystyriaethau cynllunio sylfaenol sy'n gyffredin i bob math o ddatblygiad ym Mharciau Cenedlaethol Cymru.
 - Mae Pennod 3 yn egluro'r ystyriaethau cynllunio sy'n berthnasol i fathau penodol o ddatblygiad ym Mharciau Cenedlaethol Cymru.
 - Mae Pennod 4 yn cynnwys rhestr o we-gysylltiadau a'r holl ddogfennau sy'n uniongyrchol berthnasol i gynllunio datblygiadau cynaliadwy yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Yn ogystal, darperir manylion cyswllt adran gynllunio eu darparu ar gyfer pob un o'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru.
 - Mae Atodiad 1 yn cynnwys geirfa.
- 1.4 Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y CCA yn anelu at:
- Ddarparu eglurder o ran sut y dylai polisiâu cynllunio gael eu dehongli a'u cymhwyso yn ymarferol.
 - Achub y blaen ar beryglon cynllunio cyffredin a all arwain at geisiadau gwael neu oedi ar ôl i geisiadau gael eu cyflwyno.
 - Helpu ymgeiswyr i roi cynigion datblygu at ei gilydd a ddylai fod yn dderbyniol mewn egwyddor.
 - Darparu sail ar gyfer trafodaethau cyn cyflwyno cais sy'n fwy cadarnhaol a chynhyrchiol rhwng ymgeiswyr a swyddogion rheolaeth datblygu'r Parciau.
- 1.5 Mae pob cais cynllunio yn wahanol ac ni all y CCA fod yn berthnasol ar gyfer pob cais cynllunio. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y mathau mwyaf cyffredin o fân geisiadau. Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno cynnig cynllun defnydd-cymysg sy'n cynnwys mwy nag un o'r mathau datblygu a archwilir isod gyfeirio at bob un o'r adrannau perthnasol.
- 1.6 Mae'n egwyddor hir-sefydledig na ddylai **datblygiadau mawr**² ddigwydd mewn Parc Cenedlaethol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, oni bai fod archwiliad trwyadl yn dangos bod y cynigion er budd y cyhoedd³.
- 1.7 Er mai dim ond y polisiâu yn y cynllun datblygu sydd â statws arbennig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, (h.y. at ddibenion unrhyw benderfyniadau o dan y Deddfau Cynllunio, rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r Cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall), gall Canllawiau Cynllunio Atodol gael eu hystyried fel ystyriaeth gynllunio berthnasol. Wrth wneud penderfyniadau ar faterion a ddaw ger ei fron, bydd Llywodraeth y Cynulliad a'r

¹ Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7), Gorffennaf 2014

² PS2 Bannau Brycheiniog; Polisi Strategol B Eryri

³ Dylai asesiad trylwyr gynnwys: ystyriaeth genedlaethol; cost a chwmpas ar gyfer lleoli'r datblygiad y tu allan i'r Parciau Cenedlaethol; y gallu i ddiwallu'r angen am y datblygiad mewn rhyw ffordd arall; a'r effaith ar bwrsasau'r PC, cymunedau, yr economi, yr amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol petai'r datblygiad yn cael ei ganiatáu a petai'n cael ei wrthod. Gweler Polisi Cynllunio Cymru Fersiwn 7 paragraff 5.5.6

Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar ganllawiau cynllunio atodol a gymeradwywyd sy'n deillio allan o, ac a baratowyd yn gyson â'r dull a nodir yn y polisi cenedlaethol ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Yn syml, mae gofynion y ddeddfwriaeth yn golygu bod rhaid cymryd y canlynol i ystyriaeth wrth ystyried cynnig:

- 1.8 A yw'r cynnig yn bodloni gofynion polisiâu yn y Cynllun Datblygu; a
- 1.9 Pwyso a mesur yr holl ystyriaethau cynllunio eraill i weld a ydynt yn gorbwysu casgliad y Cynllun Datblygu.⁴
- 1.10 Mae adroddiad ar yr ymgynghori sy'n rhoi manylion am y modd yr ymgynghorwyd ar y Canllawiau, ar gael i gael golwg arno ar wefan yr Awdurdod.⁵

Pwrpas y System Gynllunio

- 1.11 Mae'r system gynllunio yn rheoli datblygiad a defnydd tir er budd y cyhoedd. Yn ganolog i hyn mae cysoni'r angen am ddatblygiad a thwf economaidd a gwarchod a gwella'r amgylchedd. Datblygu Cynaliadwy yw datblygiad sy'n parchu terfynau amgylcheddol ac yn cwrdd ag anghenion cymunedau wrth feithrin economi gynaliadwy.
- 1.12 Rhoddodd Deddf Llywodraeth Cymru (2006) ddyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth fynd ar drywydd Cymru gynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn cael ei ddiffinio gan y polisi cynllunio cenedlaethol fel a ganlyn:

"Y broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd. Mae datblygiadau cynaliadwy yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenedlaeth ni mewn ffyrdd sy'n:

Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau. Gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol "

Cynllunio yn y Parciau Cenedlaethol

- 1.13 Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, sy'n cwmpasu tua un rhan o bump o'r wlad.
- 1.14 Mae gan y Parciau Cenedlaethol ddau bwrpas statudol⁷:
 - Gwarchod a gwella eu harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol.
 - Hyrwyddo cyfleodd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu rhinweddau arbennig
- 1.15 Os yw cynnig yn cyflawni un diben ond nid y llall, yna egwyddor hir sefydledig (sef 'Egwyddor Sandford') yw mai'r pwrpas cyntaf sydd fwyaf pwysig. Yn ymarferol mae hyn yn golygu, pe bai cynnig yn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a mwynhad o'r Parc, ond hefyd yn cael effaith negyddol ar ei harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol, yna ni ddylid ei ganiatáu.
- 1.16 Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau), a phob corff cyhoeddus eraill sy'n gweithio o fewn y Parciau, sy'n gyfrifol am sicrhau fod pwrpasau statudol⁸ y Parciau Cenedlaethol yn cael eu cynnal. Yn ogystal, mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a phob corff cyhoeddus arall hefyd ddyletswydd statudol i feithrin lles economaidd a lles cymdeithasol cymunedau lleol o fewn y

⁴ Tudalen 27 <http://www.wlga.gov.uk/publications-and-consultation-responses-imp/planninghandbook-a-guide-for-local-authority-members/>

⁵ [Report of Consultations](#)

⁶ Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7), Gorffennaf 2014


⁷ Deddf Yr Amgylchedd 1995

⁸ Deddf Yr Amgylchedd 1995

Parciau. Mae'n rhai i bolisiau a phenderfyniadau cynllunio adlewyrchu'r gofynion hyn i gyd.

- 1.17 Er bod deg Cyngor Sir yn croesi drosodd i'r Parciau Cenedlaethol (gweler Ffigur 1.1), mae ceisiadau cynllunio o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu penderfynu gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

Ffigur 1.1 – Parciau Cenedlaethol a Chynghorau Sir



2 Cynllunio datblygiadau cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru

- 2.1 Mae cyflawni datblygu cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (ac ardaloedd AHNE) yr un mor bwysig ag yn unrhyw le arall yng Nghymru. O fewn y Parciau mae gan yr amgylchedd lefel uwch o ddiogelwch nac mewn mannau eraill, ond mae cymunedau ac economïau lleol ffyniannus hefyd yn hanfodol i ddyfodol cynaliadwy ar gyfer y Parciau.
- 2.2 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r materion cynllunio sylfaenol sy'n gyffredin i bob un Cynllun Datblygu Lleol yn y tri Parc Cenedlaethol. Mae angen i ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â hwy cyn cyflwyno cais cynllunio er mwyn uchafu'r tebygolrwydd bod eu cais cynllunio yn cael caniatâd. Mae pob un o'r tri Parc Cenedlaethol yn darparu gwasanaeth cyn-ymgeisio. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn codi tâl am rai mathau o geisiadau, ac mae asiantau / ymgeiswyr yn cefnogi hyn ac yn gwerthfawrogi'r gwerth ychwanegol y mae'r gwasanaeth yn ei roi i'w cleientiaid. Ceir cyfeiriadau at rai polisiâu cynllunio datblygu lleol a chanllawiau cynllunio atodol yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol unigol nad ydynt yn berthnasol i bob un o'r tri Parc Cenedlaethol.

A yw eich datblygiad yn cyd-weddu gyda phwrpasau a ddyletswydd y Parc Cenedlaethol?⁹

- 2.3 Waeth pa mor syml neu gymhleth, mae'n rhaid i ymgeiswyr ystyried a fydd eu cynnig yn cyflawni neu'n gwrthdaro gyda dau bwrpas statudol y Parciau Cenedlaethol ac a fydd yn helpu'r APC i gyflawni ei ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- 2.4 Mae'r **pwrpasau** a'r **ddyletswydd** yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cael eu cydnabod fel chwaraewyr pwysig wrth fod yn esiamplau arweiniol o ddatblygu cynaliadwy. Felly, bydd datblygiad sydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn gwarchod ac yn gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau, ac yn cynnig cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddiad arbennig hyn ac yn meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol yn debygol o gael ei ystyried yn ddatblygu cynaliadwy a chael eu caniatáu.
- 2.5 Yn ddelfrydol, byddai cynigion datblygu yn y Parciau yn diwallu'r pwrpasau a'r ddyletswydd, gan gyflawni manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn lleol. Yn ymarferol, mae llawer o gynigion yn debygol o ddarparu ystod mwy cyfyngedig o fuddion, er enghraifft, canolfan newydd i ymwelwyr sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r Parciau yn bennaf neu dai fforddiadwy sy'n meithrin lles cymdeithasol yn bennaf. Gall cynigion o'r fath hefyd gynrychioli datblygiad cynaliadwy ar yr amod nad ydynt yn gwrthdaro ag unrhyw agwedd o'r pwrpasau na'r ddyletswydd.
- 2.6 Mae'r gofynion hyn yn cael eu gosod i lawr yn y gyfraith (Deddf yr Amgylchedd 1995) a rhaid i bolisi a phenderfyniadau cynllunio Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol lynu atynt. Er bod y mathau o, a lleoliadau ar gyfer datblygu cynaliadwy derbyniol yn y Parciau yn parhau i fod yn sylweddol, rhaid i ymgeiswyr ddeall cymhwysiad ymarferol y pwrpasau a'r ddyletswydd. Mae'r CCA hwn wedi'i gynllunio i gefnogi'r ddealltwriaeth honno.
- 2.7 Mae graddfa'r datblygiad hefyd yn bwysig. Mae'r pwrpasau a'r ddyletswydd yn canolbwyntio ar warchod a gwella amgylchedd y Parciau a lles eu cymunedau. Mae datblygiad ar raddfa lai fel arfer yn ddigonol i gwrdd ag anghenion cymunedau ac economïau lleol, a gall yr amgylchedd ymdopi'n well ag o.

⁹ PG1 Bannau Brycheiniog – Polisi 1; Polisi 1 Arfordir Penfro; Polisi Strategol A Eryri

Beth all gael ei adeiladu yn ble yn y Parciau Cenedlaethol?¹⁰

Hierarchaeth anheddau

- 2.8 Fel mewn ardaloedd gwledig eraill, mae'r rhan fwyaf o ddatblygu yn y Parciau yn cael ei gyfeirio at y trefi a'r pentrefi mwy lle bydd cyfleusterau a gwasanaethau hanfodol, fel ysgolion, meddygfeydd, swyddfeydd post a siopau bwyd, a chrynodiadau o gyflogaeth yn cael eu canfod. Mae hyn er mwyn helpu i gynnal gwasanaethau ac economïau lleol a lleihau'r angen i deithio mewn car, ac yn hytrach na hynny, annog y defnydd o ddulliau mwy cynaliadwy o deithio megis cerdded a beicio.
- 2.9 Gelwir hyn yn 'hierarchaeth anheddiad'. Po fwyaf neu fwyaf arwyddocaol yw'r aneddiad o ran swyddi a gwasanaethau, ehanga'n byd yw'r ystod a graddfa datblygiadau a gefnogir ynddynt. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol y Parciau yn adnabod pa aneddiadau sy'n eistedd ar bob lefel o'r hierarchaeth.
- 2.10 Mae'r rhannau hynny o bob Parc Cenedlaethol sydd y tu allan i aneddiadau yn yr hierarchaeth aneddiadau yn cael eu dosbarthu fel 'cefn gwlad'. Bydd hyn yn cynnwys grwpiau o aneddiadau heb eu nodi yn yr hierarchaeth gan eu bod yn rhy fach neu'n maent ganddynt rhy ychydig o wasanaethau a chyfleusterau. Mae datblygiad yng nghefn gwlad yn fwy cyfyngedig. Fodd bynnag, dim ond yng nghefn gwlad y gall rhai mathau o ddatblygiadau digwydd.
- 2.11 Wrth benderfynu a yw cynnig am ddatblygiad yn gynaliadwy, bydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu dylanwadu'n drwm gan ei leoliad. Mae'r crynodebau a ganlyn yn ganllawiau bras ar y math o ddatblygiad sydd yn gyffredinol yn cael eu hannog yn y Parciau mewn gwahanol fath o leoliadau. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol pob APC yn darparu rhagor o fanylion.

Anheddau mwy

- 2.12 Yn yr aneddiadau mwy neu fwy arwyddocaol, mae datblygiad sy'n cryfhau ac yn gwella eu swyddogaethau fel canolfannau ar gyfer gwasanaethau, gwaith / cyflogaeth ac ymwelwyr yn cael eu hannog yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys:
- Tai, mewn cymysgedd o feintiau a deiliadaeth sy'n cwrdd ag anghenion lleol.
 - Datblygiadau manwerthu o fewn ac yn agos at ganolfannau masnachol.
 - Datblygu twristiaeth gefnogol, gan gynnwys llefydd ac atyniadau /cyfleusterau ymwelwyr.
 - Gwasanaethau masnachol, gan gynnwys bwytai, bariau a siopau.
 - Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.
 - Datblygiadau eraill sy'n darparu cyflogaeth i gefnogi'r economi wledig.

Aneddiadau llai

- 2.13 Yn yr aneddiadau llai neu llai arwyddocaol, bydd datblygiad sy'n diwallu anghenion lleol ar gyfer tai a chyflogaeth, neu'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned leol a / neu ymwelwyr yn cael eu hannog yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys:
- Datblygiadau bach o dai fforddiadwy¹¹.
 - Datblygiadau graddfa fach sy'n darparu gwaith / cyflogaeth.
 - Cyfleusterau cymunedol newydd.

¹⁰ PGP10 Bannau Brycheiniog; Polisi 2, 3, 4, 5, 6 a 7 Arfordir Penfro; Polisi Strategol C Eryri a Pholisi Datblygu 1

¹¹ Ym Mharc Arfordir Penfro fe all tai marchnad fod yn dderbyniol hefyd, er fe roddir blaenoriaeth i dai fforddiadwy.

Lleoliadau cefn gwlad

Cyfangos i aneddiadau

2.14 Mae datblygu ar ymyl aneddiadau yn cael ei ystyried fel lleoliad cefn gwlad ond gellir ei ganiatáu pan fydd yn diwallu anghenion cymunedau a pan fo ei effaith ar yr amgylchedd yn dderbyniol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Datblygiadau bach o dai fforddiadwy.
- Datblygiad cyflogaeth ar raddfa fechan, lle nad oes unrhyw safleoedd addas o fewn yr anheddiad.
- Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.
- Datblygiadau Un Blaned (gweler Pennod 3).

Draw oddi wrth aneddiadau

2.15 Mae datblygu draw i ffwrdd oddi wrth aneddiadau fel arfer yn cael ei gyfyngu i'r hyn lle bo' angen lleoliad cefn gwlad agored (ac felly ni fyddai'n cael ei leoli'n well o fewn anheddiad). Mae hyn yn cynnwys

- Addasiadau ar raddfa fach o adeiladau gwledig ar gyfer llety i ymwelwyr, cyflogaeth / gwaith neu dai fforddiadwy¹².
- Mae angen i dai newydd alluogi gweithwyr Menter Wledig (ee gweithwyr fferm neu goedwigaeth) i fyw'n agos at eu man gwaith.
- Datblygiad arallgyfeirio ffermydd.
- Adeiladau amaethyddol a choedwigaeth newydd.
- Gweithgareddau ymwelwyr neu hamdden yn dibynnu ar leoliad gwledig.
- Cyfleusterau cymunedol lle nad oes unrhyw leoliadau addas yn yr aneddiadau.
- Datblygiadau Un Blaned.

Ystyriaethau cynllunio ar gyfer pob datblygiad yn y Parciau Cenedlaethol

2.16 Mae gan y Parciau nifer o bolisiau cynllunio trosfwaol sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu a hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth o nodweddion a chymeriad arbennig y Parciau ac sy'n cymhwyso i bob cynnig datblygu. Mae'r ystyriaethau strategol hyn, fel pwrpasau a dyletswydd y Parciau', yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn Parciau a gofyn i ymgeiswyr ystyried goblygiadau eu cynnig ar ddatblygu cynaliadwy. Mae datblygiadau sy'n ystyried eu heffeithiau ar y polisiau strategol hyn, yn ogystal â phwrpasau a dyletswydd y Parciau Cenedlaethol a hierarchaethau anheddiad fel y disgrifir uchod, yn debygol o fod yn dderbyniol mewn egwyddor.

Tirwedd¹³

- 2.17 Mae tirweddau a morluniau'r Parciau Cenedlaethol yn rhan annatod o nodweddion arbennig y Parciau, gan gyfrannu at eu cymeriad ac ymdeimlad o le yn gyffredinol.
- 2.18 Datblygiadau Cynaliadwy yw'r rhai hynny sy'n gwarchod ac yn gwella cymeriad y dirwedd a'r morwedd, yn ogystal ag ansawdd harddwch y Parc Cenedlaethol, ac sydd wedi eu cynllunio, eu lleoli, eu graddio a'u tirweddau i ategu a gwella nodweddion tirwedd allweddol, golygfeydd cyhoeddus a manau agored.

¹² Dim ond tai fforddiadwy mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn eu caniatáu; mae Parc Cenedlaethol Eryri yn caniatáu tai ar gyfer y farchnad drwy gyfrwng addasiadau cyn belled â bod 50% o'r tai ar y safle yn dai fforddiadwy neu'n cael eu cyflawni drwy gyfrwng swm cymudo; mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn caniatáu nifer cyfyngedig o dai ar gyfer y farchnad mewn lleoliadau hygrych ac yn achlysurol yn caniatáu aildddefnyddio adeiladau presennol sy'n bwysig i'r dreftadaeth leol ac yn bensaernïol.

¹³ Polisi Gofodol 1 Bannau Brycheiniog; Polisi 8 a 15 Arfordir Penfro; Polisi Strategol D Eryri, Polisiau Datblygu 2 a 5

- 2.19 Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Eryri Ganllawiau Cynllunio Atodol ar eu tirweddau a morluniau priodol, gellir dod o hyd i'r gwe-gysylltiadau ym Mhennod 4.

Bywyd gwyllt a daeareg¹⁴

- 2.20 Mae 'bywyd gwyllt' neu 'fioamrywiaeth', daeareg a geomorffoleg y Parciau yn gyfrifol am lawer o'r golygfeydd unigryw, arogleuon a synau cefn gwlad Cymru. Felly mae eu gwarchod a'u gwella yn hanfodol i warchod y nodweddion arbennig sy'n diffinio'r Parciau.
- 2.21 Datblygiadau Cynaliadwy yw'r rhai sy'n gwarchod a gwella bywyd gwyllt, daeareg a geomorffoleg. Mae gan Barciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Eryri Ganllawiau Cynllunio Atodol ar gadwraeth natur a bioamrywiaeth, ac mae gan PC Arfordir Penfro Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol, i helpu ymgeiswyr i ddeall y dynodiadau sydd wedi cael eu gosod yn eu lle i ddiogelu'r asedau hyn ac i gynllunio a lleoli datblygiadau sy'n eu parchu. Mae'r Gwe-gysylltiadau at y canllawiau i'w gweld ym Mhennod 4.

Treftadaeth¹⁵

- 2.22 Mae treftadaeth ddiwylliannol yn elfen bwysig o nodweddion a chymeriad arbennig y Parciau. Mae ei gadwraeth yn cynnal y nodweddion hyn a'r manteision y maent yn ei greu ar gyfer trigolion y Parc ac ymwelwyr.
- 2.23 Mae datblygiadau Cynaliadwy yn y Parciau yn gwarchod a gwella asedau archeolegol, pensaernïol, hanesyddol a / neu ddiwylliannol a hyrwyddo llên gwerin, celf, llenyddiaeth a cherddoriaeth y Parc. Mae gosodiad a golygfeydd arwyddocaol o asedau treftadaeth ddiwylliannol ddynodedig, gan gynnwys henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, yr un mor bwysig â'r ased ei hun. Caniateir newidiadau i asedau treftadaeth pan fyddant yn cadw nodweddion hanesyddol neu bensaernïol gwreiddiol, cymeriad a gosodiad. Gall cynigion i ddymchwel asedau treftadaeth fod yn dderbyniol pan roddir cyfiawnhad priodol am y rheswm pam na all yr ased gael ei gadw neu nad yw'n werth ei gadw. Yn y cyfryw achosion, bydd angen cynnig mesurau i sicrhau bod yr ased yn cael ei ymchwilio'n llawn a'i gofnodi cyn i'r gwaith dymchwel ddigwydd.
- 2.24 Mae'n rhaid i archeolegwyr â chymwysterau proffesiynol werthuso pob datblygiad mewn ardaloedd sydd ag olion archeolegol pwysig, neu a allai fod yn bwysig.
- 2.25 Mae APC Arfordir Penfro wedi cyhoeddi CCA ¹⁶ sy'n darparu arweiniad pellach ar yr Amgylchedd Hanesyddol ac Archeoleg y Parc, ac fe ellir dod o hyd i we-gyswllt ym Mhennod 4. Mae Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer pob ardal ar gael ar-lein (<http://cofiadurcahcymru.org.uk/arch/>) Mae amrywiaeth eang o swyddogaethau i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol gan gynnwys cynorthwyo yn y gwaith o reoli a chyflwyno'r dirwedd hanesyddol yn gadarnhaol, rheoli cynllunio, ac fel ffynhonnell i fewnbynnu hanes lleol a phrosiectau cadwraeth a thwristiaeth.

Rheoli llygredd a gwastraff¹⁷

- 2.26 Mae rheoli gwastraff a llygredd a gynhyrchir yn sgil datblygiad yn y Parciau yn helpu i ddiogelu eu nodweddion arbennig rhag effeithiau negyddol llygredd, gan wella iechyd yr amgylchedd a'r cyhoedd, sydd yn ei dro o fudd i economïau'r Parciau.
- 2.27 Daw llygredd ar sawl ffurf ac mae'n dilyn nifer o lwybrau. Mae datblygiadau cynaliadwy yn rhoi ystyriaeth i'r holl ffynonellau perthnasol, y llwybrau a derbynyddion llygredd a gwastraff. Mae datblygiadau cynaliadwy hefyd yn parchu ansawdd bywyd yn y Parciau, gwarchod a gwella iechyd ac amwynder trigolion a bywyd gwyllt. Lle bo modd, dylai adeiladu a gweithredu datblygiadau gael eu cynllunio i leihau faint o wastraff a gynhyrchir a helpu i ail-ddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff. Mae canllawiau arfer da ar reoli gwastraff adeiladu ar gael gan Construction Excellence Wales, gweler gwe-gyswllt ym Mhennod 4. Mae paragraff 13.9.1 i 13.9.2 o Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7 yn ymdrin â rheoli datblygu a thir ansad.

¹⁴ Polisi 2, 3 a 4 Bannau Brycheiniog; Polisi 10 a 11 Arfordir Penfro; Polisi Strategol D Eryri

¹⁵ 'Polisiau Newydd' Bannau Brycheiniog yn y Cynllun Cyfansawdd; Polisi 13 ac 14 Arfordir Penfro Policy; Polisi Strategol F Eryri, Polisi Datblygu 7 ac 8

¹⁶ CCA Amgylchedd Hanesyddol Arfordir Penfro (Archeoleg) 2011

¹⁷ Polisi Strategol 4 Bannau Brycheiniog a Pholisiau 5, 6, 7 a 8, 42, 43, 44 a 45; Polisi 9, 31 a 32 Arfordir Penfro Policy; Polisi Strategol F Eryri a Pholisiau

Cludiant¹⁸

- 2.28 Mae cysylltiadau cludiant i'r Parciau ac o'u cwmpas yn hwyluso cyfleoedd i bobl fwynhau nodweddion arbennig y Parciau trwy ddarparu mynediad a chyd-gysylltu cymunedau ac ymwelwyr gyda chyfleusterau a gwasanaethau hanfodol a heb hyn ni fyddai yna ddatblygu cynaliadwy yn y Parciau. Ychydig iawn o lygredd mae llwybrau troed a beicio da yn ei gynhyrchu ac mae'n annog pobl i fod yn actif; mae bysiau cyhoeddus a threnau yn lleihau faint o geir preifat sydd ar y ffyrdd sy'n lleihau tagfeydd, llygredd sŵn ac allyriadau carbon.
- 2.29 Mae datblygiadau cynaliadwy yn lleihau'r angen i deithio trwy ddarparu neu gael ei leoli yn agos at gyfleusterau a gwasanaethau hanfodol. Mae datblygiadau cynaliadwy hefyd yn hwylus trwy gyfrwng llwybrau troed, llwybrau beicio a chludiant cyhoeddus, gan leihau'r angen i deithio mewn car preifat.
- 2.30 Mewn rhai cymunedau gwledig mwy anghysbell nid oes gan bobl yn y Parciau fawr o ddewis ond teithio mewn car preifat; gall cynigion datblygu sy'n darparu ar gyfer anghenion lleol y cymunedau hyn fod yn dderbyniol mewn rhai amgylchiadau, fel y disgrifir gan bolisi Cenedlaethol o fewn TAN6¹⁹. Mae Nodyn Cyngor Technegol 18 Trafnidiaeth hefyd yn rhoi cyngor. Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ganllaw Cynllunio Atodol ar Safonau Parcio²⁰ ac Asesu Hygyrchedd²¹, gweler gwe-gysylltiadau ym Mhennod 4.

Yr Iaith Gymraeg²²

- 2.31 Yn y Parciau Cenedlaethol mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o ddiwylliant a bywyd cymdeithasol y gymuned ac ni ddylai datblygiadau niweidio'r nodweddion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned. Er enghraifft, mae arwyddion Gymraeg ac enwau lleoedd o fewn y Parciau Cenedlaethol yn cynrychioli dull pwysig o hyrwyddo diwylliant unigryw Cymru a'u Parciau Cenedlaethol.
- 2.32 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20²³ yn darparu cyngor ar roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth gynllunio. Mae gan Parc Cenedlaethol Eryri Ganllawiau Cynllunio Atodol ar gynllunio a'r iaith Gymraeg²⁴, gweler gwe-gyswllt yn y rhan cyfeiriadau a dolenni.

Dyluniad ac adeiladu cynaliadwy²⁵ a newid hinsawdd²⁶

- 2.33 Efen bwysig o gynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy yw lleihau cyfraniad y Parciau i achosion newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon. Er mwyn i ddatblygiadau yn y Parciau fod yn wirioneddol gynaliadwy, mae'n rhaid iddo gael ei ddylunio a'i adeiladu gyda phwrpasau'r Parc a'r ddyletswydd mewn golwg, gan ymgorffori nodweddion a mesurau i gyrraedd pob un o'r ystyriaethau cynllunio strategol a amlinellir uchod.
- 2.34 Yn ogystal, mae arferion dylunio ac adeiladu cynaliadwy yn cynrychioli'r ffordd fwyaf cadarnhaol a rhagweithiol fel modd y gall datblygiadau fynd i'r afael â'r bygythiad mwyaf sylweddol unigol i nodweddion arbennig y Parciau : newid yn yr hinsawdd.
- 2.35 Mae safonau cenedlaethol adeiladu cynaliadwy yn darparu glasbrint ar gyfer datblygiadau cynaliadwy i ymgorffori effeithlonrwydd ynni a thechnolegau carbon isel o ran eu dyluniad a'u hadeiladwaith. Mae datblygiadau sy'n lleihau'r angen i deithio, fel y disgrifiwyd yn flaenorol, hefyd yn helpu i gyflawni'r amcan hwn.
- 2.36 Mae addasu ar gyfer effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd hefyd yn bwysig ar gyfer cynnal nodweddion arbennig y Parciau yn y tymor hir ac ar gyfer cynyddu gwydnwch eu cymunedau ac economïau. Gall cynigion datblygu yn y Parciau helpu i gyflawni'r amcan hwn trwy osgoi ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd nawr neu a ragwelir fydd mewn perygl yn y dyfodol; drwy

¹⁸ PG 17 Bannau Brycheiniog a Pholisïau 39 a 40; Polisiâu 52, 53 a 54 Arfordir Penfro; Polisi Strategol L Eryri

¹⁹ NCT6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy para. 2.2.3, LIC, 2010

²⁰ Safonau Parcio CCA Arfordir Penfro, 2011

²¹ Asesiad Hygyrchedd CCA Arfordir Penfro, 2013

²² Polisi 34 Bannau Brycheiniog; Polisi 12 Arfordir Penfro; Polisi Datblygu 18 Eryri

²³ NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, LIC, 2013

²⁴ CCA 3 Eryri: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, 2011

²⁵ PG11 a Pholisï 9 Bannau Brycheiniog; Polisiâu 15 a 29 Arfordir Penfro; Polisi Strategol F a Pholisï Datblygu 6 Eryri

²⁶ Polisi Strategol 4 a Pholisï 38 Bannau Brycheiniog 38; Polisiâu 32 a 34 Arfordir Penfro; Polisi Strategol Dd Eryri

adeiladu systemau draenio cynaliadwy (SUDS) a, lle y bo'n briodol, amddiffynfeydd rhag llifogydd; a thrwy gysylltu a gwella rhwydwaith seilwaith gwyrdd y Parciau i helpu i wella bywyd gwylt er mwyn helpu i addasu i hinsawdd sy'n newid. Mae arweiniad ac adnoddau defnyddiol eraill ar gynllunio, dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw SUDS ar gael gan Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA) a Susdrain, gweler gwe-gysylltiadau ym Mhennod 4.

- 2.37 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi cyhoeddi'r CCA ar ddyluniad cynaliadwy datblygiadau yn y Parciau²⁷. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri GCA arall gyda manylion pellach ar ystyriaethau datblygu cyffredinol yn y Parc²⁸. Gweler gwe-gysylltiadau ym Mhennod 4.

Gwybodaeth gefnogol

- 2.38 Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 2012 (Gweithdrefn Rheolaeth Datblygu) (Cymru) (y DMPWO) yn darparu Ffurflen Gais Safonol ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru ac yn datgan beth yw'r diffiniad o gais 'dilys'. Gall awdurdod cynllunio lleol wrthod derbyn cais os nad yw'r wybodaeth briodol yn cael ei darparu gydag o.
- 2.39 Yn ychwanegol at y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer dilysu ceisiadau, efallai y bydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, fel pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, angen arolygon ac adroddiadau ategol ychwanegol yn unol â gofynion eu polisiau yn eu CDLI (megis y rhai a restrir yn Nhabl 2.1). Gellir dod o hyd i'r wybodaeth gynhwysfawr am y wybodaeth ychwanegol a all fod yn angenrheidiol yn y Cylchlythyr ar Ddilysu²⁹.

²⁷ CCA Dyluniad Cynaliadwy Bannau Brycheiniog, 2009; CCA Dyluniad Cynaliadwy Arfordir Penfro, 2011; CCA Dyluniad Cynaliadwy Eryri, 2011

²⁸ CCA 2: Ystyriaethau Datblygu Cyffredinol, 2011

²⁹ Cylchlythyr 002/12 LIC Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol ar y Defnydd o'r Ffurflen Gais Safonol ('1app') A Dilysu Ceisiadau

Tabl 2.1 – Gwybodaeth ychwanegol a all fod yn angenrheidiol i gefnogi cais cynllunio.³⁰

Dogfen	Cynnwys ³¹
Datganiad Treftadaeth	<p>Mae Ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig angen datganiad ysgrifenedig, gan gynnwys atodlen gwaith ar gyfer yr Adeilad (au) Rhestredig, dadansoddiad o arwyddocâd neu bwysigrwydd archaeoleg, hanesyddol a chymeriad yr adeilad / strwythur, egwyddorion a chyfiawnhad ar gyfer y gwaith arfaethedig a'u heffaith ar gymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig neu strwythur, ei osodiad a gosodiad yr Adeiladau Rhestredig cyfagos. Efallai hefyd y bydd angen arolwg strwythurol i'w gefnogi.</p> <p>Efallai y bydd angen i geisiadau am ddatblygu ar safle lle tybir bod gweddillion archeolegol yn bodoli gael asesiad o'r effaith ar yr adnodd archeolegol wedi'i wneud. Lle bo datblygiad yn cael effaith uniongyrchol ar heneb gofrestrredig, bydd angen cael caniatâd heneb gofrestrredig oddi wrth Cadw.</p> <p>Hefyd gall fod angen cael asesiad ychwanegol ar ffurf Asesiad o Arwyddocâd Effaith y Datblygiad ar y Dirwedd Hanesyddol.</p>
Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth	Canlyniadau unrhyw arolygon ac argymhellion ecoleg angenrheidiol ar gyfer osgoi, lleihau a gwneud iawn am effeithiau andwyol datblygiad.
Datganiad Dylunio a Mynediad	Esboniad o'r egwyddorion a'r cysyniadau dylunio sydd wedi'u cymhwyso i agweddau penodol o'r cynnig, gan gynnwys swm, gosodiad, graddfa, tirlunio ac edrychiad y datblygiad.
Datganiad Amgylcheddol	Canlyniadau Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (AEA) sy'n ofynnol ar gyfer cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.
Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd	Manylion maint a thebygolrwydd o lifogydd ar y safle, yn ogystal ag unrhyw effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i lawr yr afon.
Asesiad Risg Mwyngloddio Glo	Adolygiad o'r holl wybodaeth sydd ar gael ar y materion cloddio glo sy'n berthnasol i safle'r cais.
Asesiad Sŵn	Adroddiad ar effeithiau sŵn a gynhyrchir gan y gwaith adeiladu a gweithrediad y datblygiad arfaethedig.
Asesiad o Effaith manwerthu	Adroddiad ar effaith y datblygiad ar y gwasanaethau manwerthu yn yr ardal leol.
Gwerthusiad Annedd Menter Wledig	Adroddiad cyfiawnhau'r angen hanfodol am annedd newydd i gefnogi busnes gwledig. Bydd natur y wybodaeth sydd ei hangen yn amrywio yn ôl y math o Anheddau Mentrau Gwledig a chymeriad y Fenter Wledig dan sylw.
Asesiad Cludiant	Nodweddion o'r rhwydwaith cludiant presennol i ac o'r safle, effeithiau posibl y datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithrediad a dulliau i liniaru unrhyw effeithiau andwyol / uchafu effeithiau cadarnhaol, megis dulliau trafniadaeth cynaliadwy.
Arolwg coed	Arolwg o'r coed sydd mewn perygl yn sgil y datblygiad ac adroddiad yn amlinellu'r argymhellion ar gyfer osgoi a lleihau effeithiau andwyol a gwella'r ddarpariaeth coed.
Tai fforddiadwy	Gwybodaeth gefnogol am dai fforddiadwy gan gynnwys cytundeb drafft Adran 106.

³⁰ Mae Tabl 2 yn cynnig rhestr o wybodaeth a all fod yn ofynnol i gefnogi cais cynllunio yng Nghymru; fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn ddi-ben-draw a dylai ymgeiswyr gysylltu gyda'u ACL i gadarnhau'r gofynion lleol.

³¹ Bydd cwmpas a faint o fanylion sy'n angenrheidiol mewn dogfennau sy'n cyd-fynd yn amrywio yn unol ag amgylchiadau penodol pob cais.

Caniatadau neu drwyddedau eraill a all fod yn ofynnol

- 2.40 Efallai y bydd angen i ymgeiswyr gael mathau eraill o ganiatâd gan AyPC neu gyrff cyhoeddus eraill, er enghraifft, caniatâd adeilad rhestredig. Lle bwriedir gweithio ar Adeiladau Rhestredig, bydd yr APC yn fwyaf tebygol o ymgynghori â Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. O ystyried natur y Parciau Cenedlaethol a'u 'Nodweddion Arbennig' y sefydliad statudol fwyaf tebygol o fod yn rhan o drwyddedu cynigion datblygu yn y Parciau yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). CNC yw'r prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar yr amgylchedd ac mae'n gyfrifol am weinyddu amrywiaeth o drwyddedau a chaniatâd amgylcheddol, megis:
- **Trwyddedau morol** o dan y Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol (2009).
 - **Echdynnu (cymryd) neu atafaelu (storio) trwyddedau dŵr** o dan y Ddeddf Adnoddau Dŵr (1991) a'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Echdynnu ac atafaelu) (2006).
 - **Atal a Rheoli Halogiad a thrwyddedu Rheoli Gwastraff** o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) (2010).
 - **Caniatadau amddiffyn rhag llifogydd** o dan y Rheoliadau Perygl o Llifogydd (2009) a'r Is-ddeddfau Draenio Tir.
 - **Trwyddedau pysgodfeydd** o dan y Ddeddf Pysgodfeydd Eog a & Physgod Dŵr Croyw (1975).
 - **Caniatadau coed, coedlannau neu goedwigoedd**, yn cynnwys Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (AEA), cynllun grant a cheisiadau dymchwel.
 - **Trwyddedau safleoedd a rhywogaethau a ddiogelir** o dan y Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Chefn Gwlad (1949), y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981), Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010), y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981), y Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010), y Ddeddf Gwarchod Moch Daear (1992), y Ddeddf Ceirw (1991) a'r Ddeddf Gwarchod Morloi (1970).
 - **Trwyddedau rheoli gwastraff**, gan gynnwys lwfansau tirlenwi, trwyddedau masnachu, sylweddau ymbelydrol, tirhalogedig, ansawdd dŵr a dŵr daear yn agored i niwed a'r gofrestr gyhoeddus rheoli llygredd.

Amodau Cynllunio a Rhwymedigaethau Cynllunio

- 2.41 Lle bo'r angen, bydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn defnyddio Amodau Cynllunio³² a Rhwymedigaethau Cynllunio³³ i sicrhau mesurau lliniaru priodol, iawndal, a / neu fesurau gwella yn ymwneud â chynigion datblygu.
- 2.42 Mae Amodau Cynllunio yn ymdrin â'r amrediad o faterion cynllunio, megis:
- Yr amserlen y gall y datblygiad gael ei gyflawni ynnddi ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi.
 - Sicrhau dyluniad a gosodiad y datblygiad a ganiatawyd ar gyfer y tymor hir.
- 2.43 Mae gan y tri Pharc Cenedlaethol Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio³⁴, gellir dod o hyd i'r gwe-gysylltiadau ym Mhennod 4.

³² Gweler yr eirfa am y diffiniad

³³ Gweler yr eirfa am y diffiniad

³⁴ Strategaeth Goblygiadau Cynllunio Bannau Brycheiniog, 2008; Goblygiadau Cynllunio CCA Arfordir Penfro, 2011; CCA 5 Eryri 5: Goblygiadau Cynllunio, 2012

3 Ystyriaethau Cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad

- 3.1 Mae gwahanol fathau o ddatblygiad yn cyflwyno gwahanol gyfleoedd er mwyn helpu i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r bennod hon yn nodi'r prif faterion polisi cynllunio sy'n berthnasol i fathau penodol o ddatblygiad ym Mharciau Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr ystyriaethau cyffredinol ym Mhennod 2.

Tai³⁵

Tai marchnad agored a fforddiadwy mewn aneddiadau a adnabuwyd

- 3.2 Mae tai newydd yn ffordd bwysig o helpu i gyflawni agwedd ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n hanfodol i ddiwallu anghenion cymunedau'r Parc. Disgwylir iddynt gael eu darparu'n bennaf yn yr aneddiadau a nodwyd yn yr 'hierarchaeth aneddiadau' (gweler Pennod 2). Nid yw'r Parciau Cenedlaethol yn lleoedd addas ar gyfer datblygu tai ar raddfa fawr er mwyn diwallu anghenion cymunedau y tu allan i'r Parciau neu alw ehangach.
- 3.3 Cefnogir datblygu tai marchnad agored ym mhob un o'r Parciau Cenedlaethol, ond disgwylir iddynt gefnogi darparu tai fforddiadwy, naill ai drwy ddarparu cyfran o 'dai fforddiadwy' o fewn y datblygiad neu drwy wneud cyfraniad ariannol i'w darparu yn rhywle arall.
- 3.4 Mae pob un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn dyrannu tir ar gyfer datblygu tai, sy'n cael ei ddangos ar y 'Mapiau Cynigion'. Yn ychwanegol at hynny, mae pob Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried nifer priodol o ddatblygiadau 'ar hap' sy'n cael eu hadeiladu ar safleoedd sydd heb eu nodi'n benodol yn y cynlluniau fel safleoedd sydd ar gael. Mae safleoedd 'ar hap' fel arfer ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a ddaw ar gael yn annisgwyl.
- 3.5 Mae pob Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys meini prawf mwy manwl ar gyfer safleoedd tai, sy'n ymdrin â ffactorau megis diwallu'r angen am dai, agosrwydd³⁶ at wasanaethau lleol, hygyrchedd, a dyluniad a gosodiad.
- 3.6 Disgwylir i ddatblygiadau a fydd yn arwain at greu net o anheddau newydd, gan gynnwys isrannu'r tai presennol, newid defnydd, addasu adeiladau gwledig, a chodi adeiladau newydd, wneud cyfraniad 'tai fforddiadwy'. Mae pob Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r gofynion lleol penodol. Bydd datblygiad 'tai fforddiadwy' yn destun cytundeb cyfreithiol³⁷ i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn fforddiadwy am byth i bobl leol, ac mae'n rhaid iddynt fod gystal ag unedau marchnad agored o ran ansawdd y dyluniad a'r deunyddiau allanol. Mae'r tri Pharc Cenedlaethol wedi cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol ar dai fforddiadwy, ac mae cyfeiriadau a dolenni gwe wedi'u cynnwys ym Mhennod 4.

Safleoedd eithriadig ar gyfer tai fforddiadwy

- 3.7 Yn ychwanegol at dai mewn aneddiadau dynodedig, mae'r tri Pharc hefyd yn cefnogi datblygu tai fforddiadwy ar 'safleoedd eithriadig'. Safleoedd o fewn, neu gyfagos at aneddiadau dynodedig yw'r rhain lle cefnogir datblygu tai fforddiadwy fel eithriad â chyfiawnhad oherwydd:
- Bydd yn bodloni anghenion lleol o ran tai.

³⁵ PS5 & 6 Bannau Brycheiniog a Pholisïau 13, 14 a 41; Polisi 44 a 45 Arfordir Penfro; Polisi Strategol G Eryri a Pholisï Datblygu 11

³⁶ Gweler diffiniad o egwyddor agosrwydd yn yr eirfa

³⁷ Gall hyn fod ar ffurf Cytundeb Cynllunio / Cytundeb Adran 106 rhwng yr Awdurdod Cynllunio a'r datblygwr, neu Gytundeb Cynllunio syml a elwir yn 'Ymgymieriad Unochrog' lle mai dim ond y datblygwr sy'n ymrwymo iddo

- Bydd y tai yn parhau i fod yn fforddiadwy am byth.
- Mae effaith y datblygiad ar yr amgylchedd lleol yn dderbyniol.

3.8 Mae gofynion penodol ar gyfer 'safleoedd eithriedig' ym mhob un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

Tai yng nghefn gwlad

3.9 Mae'r polisi cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol 6³⁸ yn datgan os mai bwriad cynigion datblygu yw diwallu anghenion lleol cymunedau gwledig a'u bod yn cynrychioli mewnlenni neu dalgrynnu priodol o aneddiadau presennol yna mae'n bosibl iddynt fod yn dderbyniol mewn lleoliadau er na ellir mynd atynt mewn unrhyw ffordd ond gyda char preifat. O fewn y Parciau Cenedlaethol, disgwylir i isrannu tai presennol a newid defnydd neu drosi adeiladau gwledig wneud cyfraniad 'tai fforddiadwy'.

Anheddau mentrau gwledig

3.10 Weithiau, darparu anheddau newydd ar ffermydd ac ar gyfer mentrau gwledig eraill yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy. Felly, math arall o dai newydd a gefnogir y tu allan i aneddiadau dynodedig yw 'annedd menter wledig' sy'n angenrheidiol i alluogi gweithwyr mentrau gwledig i fyw yn, neu'n agos at, eu man gwaith.

3.11 Nid yw unrhyw un o Gynlluniau Datblygu Lleol y Parciau'n cynnwys polisi penodol ar gyfer hyn, ac yn hytrach maent yn dibynnu ar bolisi cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru³⁹, Nodyn Cyngor Technegol 6 a'r Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig⁴⁰. Mae 'anneddau mentrau gwledig' yn cynnwys annedd newydd ar fenter wledig sefydledig (yn cynnwys ffermydd), ail annedd ar fferm sefydledig ac weithiau annedd newydd ar fenter wledig newydd.

Safleoedd sipsiwn a theithwyr⁴¹

3.12 Yn ychwanegol at bolisiau ar gyfer datblygiadau tai parhaol, mae'r tri Pharc yn cefnogi'r ddarpariaeth o safleoedd ar gyfer cymunedau sipsiwn a theithwyr lle bo tystiolaeth o angen. Cynhyrchwyd Asesiad o'r Angen am Lety⁴² sy'n amlinellu anghenion safle cymunedau sipsiwn a theithwyr lleol ar gyfer yr ardaloedd ym mhob Parc Cenedlaethol. Mae'r Parciau'n cefnogi mewn egwyddor y safleoedd sipsiwn a theithwyr sy'n cyfrannu at angen lleol dynodedig, ac sy'n darparu cyfleustodau digonol a chynaliadwy ar y safle, ac yn ystyried amwynder tir ac adeiladau cyfagos.

Cyfleusterau cymunedol⁴³

3.13 Mae datblygiadau sy'n darparu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol lleol a hanfodol yn adnodd cymdeithasol ac economaidd pwysig i drigolion ac ymwelwyr, sy'n lleihau'r angen i deithio ymhellach ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd cyffredinol y gymuned.

3.14 Yn gyffredinol, mae gan aneddiadau mwy neu fwy arwyddocaol y Parciau y lle a'r angen mwyaf am ddatblygiadau cymunedol newydd yn agos at lwybrau cludiant cyhoeddus a'r crynodiadau mwyaf o'r boblogaeth. Gall aneddiadau llai neu lai arwyddocaol a chefn gwlad agored fod yn lleoliadau priodol ar gyfer datblygiadau lle nad oes safleoedd addas yn yr

³⁸ Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy para. 2.2.3, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010.

³⁹ Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7, Pennod 9 Tai paragraffau 9.36-9.19, Chwefror 2014.

⁴⁰ Nodyn Cyngor Technegol 6: Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2011.

⁴¹ Bannau Brycheiniog Polisi 16; Arfordir Penfro Polisi 46; Eryri Polisi Datblygu 13

⁴² Mae Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr y Parciau Cenedlaethol wedi'u hasesu gan y Cynghorau Sir perthnasol. Mae dolenni gwe i'r asesiadau diweddaraf wedi'u cynnwys yn yr adran cyfeiriadau a dolenni.

⁴³ Bannau Brycheiniog Polisiau 32 a 33; Arfordir Penfro Polisi 48; Eryri Polisi Strategol Ng

aneddiadau mwy.⁴⁴ Mae cynnal amwynder a phreifatrwydd eiddo cyfagos a'r cyhoedd a lleihau'r effeithiau amgylcheddol yn ystyriaethau pwysig ar gyfer yr holl gynigion datblygu cymunedol cynaliadwy newydd.

- 3.15 Mae'n rhaid i gynigion a fyddai'n cael effaith andwyol ar gyfleusterau cymunedol gweithredol neu a fyddai'n arwain at eu colli ddangos y bydd y cyfleusterau cymunedol gweithredol yn cael eu cadw, eu gwella neu eu hamnewid drwy dulliau amgen priodol. Lle gellir dangos bod cyfleuster cymunedol presennol yn anhyfyw neu'n anaddas, bydd yr APC yn agored i'r syniad o ailddatblygu'r safleoedd, gyda ffafriaeth gref ar gyfer tai fforddiadwy neu ddefnydd cyflogaeth. Mae CCA Rhwymedigaethau Cynllunio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ymdrin â chael cyfraniadau ar gyfer cyfleusterau cymunedol. Mae cyfeiriadau a dolen we i'r CCA wedi'u cynnwys ym Mhennod 4.

Datblygiadau cyflogaeth⁴⁵

- 3.16 Mae datblygiadau sy'n cefnogi swyddi yn y Parciau Cenedlaethol yn hanfodol ar gyfer cyflawni dyletswydd y Parciau i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Mae economi iach yn y Parciau yn galluogi buddsoddiad mewn seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer trigolion ac ymwelwyr, a diogelu nodweddion arbennig y Parciau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a gwella gallu'r Parciau i gyflawni datblygiadau cynaliadwy.
- 3.17 Mae Cynlluniau Datblygu Lleol pob un o'r Parciau'n croesawu datblygiadau cyflogaeth sy'n gwella lles economaidd a chymdeithasol ac yn parchu amwynder cymunedau lleol. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dyrannu safleoedd penodol ar gyfer datblygiadau cyflogaeth; gellir dod o hyd i ddyraniadau safleoedd cyflogaeth ar 'Fap Cynigion' y Parc, ac mae dolen we ym Mhennod 4. Mae cynigion cyflogaeth ar safleoedd sydd heb gael eu neilltuo yn debygol o gael eu caniatáu o fewn aneddiadau dynodedig. Nid yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Eryri yn neilltuo tir cyflogaeth. Yn lle hynny, mae gan y ddau Barc bolisiau galluogi sy'n seiliedig ar feini prawf sy'n caniatáu datblygiadau cyflogaeth ar gyrion aneddiadau os nad oes safleoedd addas o fewn yr aneddiadau.⁴⁶
- 3.18 Yn ychwanegol at hynny, mae cynigion o fewn 'cwrtil' anheddau yng nghefn gwlad a chynigion sy'n gofyn am leoliad yng nghefn gwlad yn debygol o gael eu caniatáu os ydynt yn cefnogi diwydiannau sy'n briodol i'r Parciau, sef:
- Twristiaeth gynaliadwy.
 - Mentrau gwledig ac amaethyddol, gan gynnwys arallgyfeirio ar ffermydd.
 - Siopau gwledig a fferm.
 - Gwasanaethau 'gwyrdd', megis cynlluniau ynni adnewyddadwy o faint priodol.
- 3.19 Mae ceisiadau i newid defnydd datblygiadau cyflogaeth presennol yn debygol o gael eu caniatáu lle gall yr ymgeisydd ddangos bod cyfiawnhad dros golli'r defnydd presennol ac y byddai'r datblygiad newydd yn cyfrannu at gynnal y gymuned leol.
- 3.20 Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn cefnogi unedau byw-gweithio mewn egwyddor.

⁴⁴ Nid yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwahardd cyfleusterau cymunedol mewn aneddiadau llai neu lai arwyddocaol nac yng nghefn gwlad agored lle bo safleoedd addas mewn aneddiadau mwy.

⁴⁵ Bannau Brycheiniog SP12

⁴⁶ **Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ystyried ymgymeriadau cyflogaeth ar gyrion Canolfannau (paragraff 7.3.2 o Bolisi Cynllunio Cymru 7^{fed} Argraffiad)**

Datblygiadau masnach a manwerthu lleol⁴⁷

- 3.21 Mae croeso i ddatblygiadau sy'n cynnig gwasanaethau masnach a manwerthu lleol yn y Parciau Cenedlaethol lle maent yn cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd yr aneddiadau presennol, yn enwedig yn y canol, ac yn parchu amwynder eu cymdogion.
- 3.22 Mae ystod ehangach o 'ddosbarthiadau defnydd' yn dderbyniol yn aneddiadau mwy neu fwy arwyddocaol y Parciau nag yn yr aneddiadau llai neu lai arwyddocaol yn y Parciau. Mae manylion ar y defnydd tir a ganiateir mewn aneddiadau penodol wedi'u hamlinellu yng Nghynlluniau Datblygu Lleol y Parciau.
- 3.23 Mae gan Barciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro Ganllawiau Cynllunio Atodol ar ddylunio blaen siopau⁴⁸, ac mae dolenni gwe wedi'u cynnwys ym Mhennod 4.

Datblygiadau swyddfa⁴⁹

- 3.24 Mae croeso i ddatblygiadau swyddfa ar raddfa fach sy'n dod â swyddi cynaliadwy a chyfleoedd hyfforddiant i'r Parciau yn yr aneddiadau mwy lle mae cysylltiadau cludiant cynaliadwy digonol a lle o fewn y rhwydwaith priffyrdd presennol.

Datblygiadau amaethyddiaeth a choedwigaeth⁵⁰

- 3.25 Mae amaethyddiaeth a choedwigaeth yn ffynonellau pwysig o gyflogaeth yn y Parciau ac yn hanfodol i warchod a gwella amgylchedd y Parciau. Mae datblygiad sy'n cefnogi mentrau amaethyddiaeth a choedwigaeth ac yn cyd-fynd yn dda â'r pwrpasau a'r dyletswyddau'n debygol o gael eu caniatáu.
- 3.26 Mae sawl math o ddatblygiad amaethyddiaeth a choedwigaeth, megis adeiladau newydd ac estyniadau, lonydd a lleiniau caled yn 'Ddatblygu a Ganiateir'. Mae hyn yn golygu nad oes angen cais cynllunio llawn ac y gall yr APC ond gynnig sylwadau ar leoliad, dyluniad ac edrychiad y cynnig. Mae Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog wedi cyhoeddi canllaw ar hyn, ac mae dolenni wedi'u cynnwys ym Mhennod 4.

Arallgyfeirio ar ffermydd

- 3.27 Arallgyfeirio ar ffermydd (neu 'amaethyddol') yw lle caniateir mathau amgen o ddatblygu economaidd ar ffermydd er mwyn cryfhau hyfywedd busnes y fferm. Felly gellir ystyried ei fod yn ddatblygiad cynaliadwy gan fod mentrau amaethyddol hyfyw yn hanfodol er mwyn cyflawni pwrpasau'r Parc a hefyd oherwydd gall ddarparu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau (megis llety neu gyfleusterau i ymwelwyr) a / neu gynorthwyo'r economi a chymunedau lleol.
- 3.28 Drwy ddiffiniad, dylai arallgyfeirio ar ffermydd ategu busnes presennol y fferm yn hytrach na chymryd ei le. Ni ddylai ychwaith wneud niwed i, nac amharu ar weithrediadau amaethyddol. Nid oes modd ystyried bod arallgyfeirio ar ffermydd sy'n lleihau cyfanrwydd ffermio yn y Parciau yn rhywbeth sy'n gynaliadwy.
- 3.29 Mae ffermydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad yn bennaf - a all fod yn lleoliad mwy amgylcheddol sensitif ar gyfer datblygu nag aneddiadau dynodedig. Mae hyn yn golygu bod angen i arallgyfeirio ar ffermydd fod yn arbennig o ofalus i leihau'r effeithiau amgylcheddol gymaint â phosibl drwy ailddefnyddio adeiladau fferm neu leoli adeiladau newydd yn agos at y rhai presennol, a sicrhau bod graddfa'r datblygiad yn gydnaws â'r hyn sydd o'i gwmpas. Ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud, mae amrywiaeth sylweddol o ffyrdd cynaliadwy o arallgyfeirio ar ffermydd yn bosibl, er enghraifft, llety i ymwelwyr, cyfleusterau i ymwelwyr, neu adeiladau busnes.

⁴⁷ Bannau Brycheiniog SP12 a SP13 a Pholisiau 19, 24, 25 a 26; Arfordir Penfro Polisiau 49, 50 a 51; Eryri Polisi Gofodol H a L a Pholisiau Datblygu 24 a 25

⁴⁸ Bannau Brycheiniog Nodyn Arweiniad y CDU ar Ddylunio Blaen Siopau, 2011; Arfordir Penfro CCA Dylunio Blaen Siopau, 2011

⁴⁹ Bannau Brycheiniog Polisiau 17 a 18; Arfordir Penfro Polisi 43; Eryri Polisi Gofodol H a Pholisi Datblygu 19

⁵⁰ Bannau Brycheiniog Polisiau 20 a 23; Eryri Polisi Datblygu 20

- 3.30 Mae gan Barc Cenedlaethol Eryri Ganllaw Cynllunio Atodol ar arallgyfeirio ar ffermydd⁵¹, ac mae dolenni gwe wedi'u cynnwys ym Mhennod 4.

Datblygiadau twristiaeth⁵²

- 3.31 Ochr yn ochr ag amaethyddiaeth, mae datblygiadau twristiaeth yn ffynhonnell incwm bwysig iawn, ac mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae yn natblygiad cynaliadwy cymunedau lleol y Parciau. Heb y cyfleusterau a'r seilwaith ar gyfer ymwelwyr, ni fyddai'r Parciau'n cyflawni eu pwrpas i hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o nodweddion arbennig y Parciau, na'u dyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parciau.
- 3.32 Er bod polisiau cynllunio ar ddatblygiadau twristiaeth yn amrywio o Barc i Barc, yn gyffredinol mae'n debygol o gael ei ganiatáu os yw'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy'r Parciau drwy hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o nodweddion arbennig y Parciau, darparu mynediad i bawb sy'n dymuno profi nodweddion arbennig y Parciau, a diogelu tawelwch a golygfeydd y Parciau er mwyn gwella profiad ymwelwyr a chynnal ansawdd bywyd trigolion lleol.
- 3.33 Mae gan Arfordir Penfro Ganllaw Cynllunio Atodol ar hamdden a gweithgareddau hamdden⁵³ yn y Parc, ac mae dolen we wedi'i chynnwys ym Mhennod 4.

Datblygu llety gwyliau⁵⁴

- 3.34 Mae'r Parciau'n cefnogi llety gwyliau newydd megis gwestai, hostelau a thai gwestai mewn aneddiadau dynodedig neu mewn rhai achosion wrth addasu adeiladau priodol yng nghefn gwlad lle maent yn llai tebygol o niweidio nodweddion arbennig y Parciau (prif atyniad y Parciau i lawer o dwristiaid) ar yr amod nad yw'r safle ar dir maes glas neu wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd tir lle profwyd bod angen lleol, megis tai fforddiadwy.
- 3.35 Mae datblygiad sy'n arwain at golli llety gwyliau presennol yn debygol o gael ei ganiatáu gan y Parciau lle gellir dangos bod defnydd y safle fel llety gwyliau yn anhyfyw, neu y gellir diwallu'r galw cyffredinol am lety ymwelwyr yn rhywle arall, ac ni fydd y datblygiad newydd ar y safle yn tanseilio cymeriad yr ardal.
- 3.36 Mae gan Barciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri Ganllaw Cynllunio Atodol ar lety ymwelwyr yn y parciau, ac mae dolenni gwe wedi'u cynnwys ym Mhennod 4.

Datblygiadau gweryslla, carafanio, carafanau statig neu gabanau gwyliau

- 3.37 Er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o nodweddion arbennig y Parciau, caniateir datblygiad newydd ar safleoedd gweryslla, carafanio, carafanau statig neu gabanau gwyliau sy'n bodoli'n barod lle nad oes cynnydd yn yr ardal weithredu na nifer y lleiniau, bod nodweddion arbennig y Parciau'n cael eu diogelu, ac y cyflawnir y gwelliannau amgylcheddol cyffredinol, gan gynnwys gwelliannau bioamrywiaeth a gwelliannau ansawdd tirwedd ar gyfer gosodiad ehangach y safle. Mae'n bosibl ehangu safle lle cyflawnir gwelliant i'r amgylchedd ond nid cynnydd yn yr ardal weithredu nac yn nifer y lleiniau. Gall cyfleusterau newydd neu well ar y safle gael eu caniatáu drwy addasu adeiladau presennol priodol ar y safle.
- 3.38 Caniateir i lety o'r fath fod yn agored i ymwelwyr y Parc ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol y tri Pharc yn nodi'r gofynion lleol a thymhorol ar gyfer datblygiad o'r fath, a ddylai gael eu hadolygu gan ymgeiswyr ochr yn ochr â manylion eraill ar ddatblygiadau o'r fath cyn gwneud cais.

⁵² Bannau Brycheiniog SP14 a Pholisiau 27, 28, 29 a 30; Arfordir Penfro Polisiau 35, 36, 27, 38, 39, 40 a 41; Eryri Polisi Gofodol I a L a Pholisi Datblygu 25

⁵³ Arfordir Penfro CCA Gweithgareddau Hamdden, 2012

⁵⁴ Arfordir Penfro CCA Colli Gwestai a Thai Gwestai, 2011; Eryri CCA 8 – Llety Ymwelwyr, 2012

Datblygiadau ynni adnewyddadwy⁵⁵

- 3.39 Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy yn darparu dewis amgen carbon isel i ffynonellau ynni allyrru carbon traddodiadol, sef glo, nwy neu olew, sy'n helpu i osgoi achosion newid yn yr hinsawdd ac o bosibl darparu ffynhonnell incwm newydd ar gyfer y cymunedau yn y Parciau. Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy sy'n parchu nodweddion arbennig y Parciau yn dderbyniol yn gyffredinol, fel datblygiadau annibynnol ac ar y cyd â gosodiadau tebyg. Mae datblygiadau adnewyddadwy ar raddfa fach yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn gynaliadwy gan eu bod yn debygol o arwain at gymharol lai o niwed i nodweddion arbennig y Parciau a chymharol lai o effeithiau mewn cyfuniad â datblygiadau adnewyddadwy eraill.
- 3.40 Mae gan Barciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri Ganllaw Cynllunio Atodol ar ynni adnewyddadwy a'i effaith gronol, ac mae dolenni gwe wedi'u cynnwys ym Mhennod 4.

Datblygiadau telathrebu a llinellau trydan⁵⁶

- 3.41 Mae cynigion ar gyfer seilwaith telathrebu a llinellau trydan, gan gynnwys seilwaith i wella mynediad band eang, sydd wedi'u dylunio a'u lleoli i barchu nodweddion arbennig y Parciau ac osgoi ymyriant radio sylweddol yn dderbyniol yn gyffredinol, fel datblygiadau annibynnol ac ar y cyd â gosodiadau tebyg. Mae'r defnydd o'r gorsafoedd telegyfathrebu presennol yn cyflwyno'r risg isaf i nodweddion arbennig ac amwynder y Parc, ac felly'r rhain yw'r datblygiadau mwyaf cynaliadwy o'r math hwn.

Datblygiadau Un Blaned (OPD)

- 3.42 Mae Datblygiadau Un Blaned (OPD) yn fath penodol iawn o ddatblygiad cynaliadwy. Mae'n caniatáu i bobl fyw ar safleoedd yng nghefn gwlad agored ar yr amod eu bod yn byw yn y fath fodd â bod y safle yn darparu'r rhan fwyaf o'u hanghenion sylfaenol (bwyd, ynni, dŵr ac ati) sy'n golygu y gellir lleihau eu hól troed ecolegol cyffredinol (mesur o effaith gyffredinol bywydau trigolion - sy'n cael ei gyfrifo ag offeryn penodol) i hanner cyfartaledd Cymru. Mae safleoedd sy'n addas ar gyfer y math hwn o OPD angen lleoliad yng nghefn gwlad (gweler 'Hierarchaeth aneddiadau' ym Mhennod 2) gyda digon o le ac adnoddau naturiol i ddiwallu anghenion y trigolion.
- 3.43 Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 a'r Arweiniad Ymarferol Datblygiadau Un Blaned cysylltiedig yn nodi meini prawf a chanllawiau manwl ar gyfer y math hwn o ddatblygiad. Mae gofynion yr OPD yn gaeth iawn, ac yn cael eu monitro'n rheolaidd. Os na fydd y datblygiad yn cyflawni gofynion yr OPD yna mae'n rhaid cael gwared ar yr anheddau ac unrhyw elfennau eraill ar y datblygiad nad ydynt yn gwella'r safle drwy 'strategaeth ymadael' y cytunwyd arni.
- 3.44 I grynhoi, nodweddion craidd yr OPD yw (mae'r Arweiniad yn fanwl iawn ac mae'n rhaid ei ddarllen ochr yn ochr â'r crynodeb hwn):
- Bod anghenion sylfaenol (o leiaf 65%) yr holl feddianwyr o ran bwyd yn cael eu diwallu o'r safle.
 - Bod anghenion sylfaenol yr holl feddianwyr o ran incwm yn cael eu diwallu o'r safle.
 - Bod y cynefinoedd a'r dirwedd presennol yn cael eu gwarchod a'u gwella.
 - Bod yr holl anghenion am ynni a dŵr yn cael eu diwallu o'r safle.
 - Bod yr holl wastraff yn cael ei gymhathu ar y safle.

⁵⁵ Bannau Brycheiniog SP9; Arfordir Penfro Polisi 33; Eryri Polisi Datblygu 3

⁵⁶ Bannau Brycheiniog SP16, Polisi 36 a 37; Arfordir Penfro Polisi 55 a 56; Eryri Polisi Datblygu 26

- Bod yr holl adeiladau domestig ac atodol yn bodloni'r safon di-garbon ar gyfer adeiladu a defnyddio.
 - Bod gostyngiad sylweddol yn effeithiau trafndiaeth yr holl weithgareddau ar y safle o'i gymharu â lefelau 'nodweddiadol'.
- 3.45 Mae'r rhain, a'r holl ofynion eraill, yn cael eu rheoli a'u monitro gan gynllun rheoli rhwymol a manwl a gaiff ei gynhyrchu gan yr ymgeisydd.
- 3.46 Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ganllaw Cynllunio Atodol ar OPD⁵⁷, ac mae dolenni wedi'u cynnwys ym Mhennod 4.

⁵⁷Arfordir Penfro CCA Datblygiad Effaith Isel yn Gwneud Cyfraniad Cadarnhaol (Datblygiad Un Blaned), 2013

4 Cyfeiriadau, dolenni a manylion cyswllt

Dogfennau polisi cynllunio cenedlaethol

[Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) 2012 \(SI 801/110\)](#)

[Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 6, 2014](#)

[Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, 2006](#)

[Nodyn Cyngor Technegol 6: Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig, 2011](#)

[Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, 2013](#)

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Gellir cysylltu â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog drwy e-bost:

<http://www.beacons-mpa.gov.uk/the-authority/planning/contact-dc-helpdesk> , neu drwy ffonio 01874 624437.

[Cynllun Datblygu LLeol](#)

[Cynllun Datblygu LLeol Bannau Brycheiniog, 2013](#)

[Asesiad o'r Farchnad Dai Leol](#)

[Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Cyngor Sir Powys, 2010](#)

[Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr](#)

[Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, Swydd Amwythig, Swydd Henffordd, Telford a Wrekin a Phowys, 2008](#)

[Canllawiau Cynllunio Atodol](#)

[Arweiniad ar gyfer Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru, 2009](#)

[Arfer Gorau mewn Cadwraeth Bioamrywiaeth a Daearegol mewn Cynllunio a Datblygu, 2008](#)

[Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio ar Drosi Adeiladau Fferm ac Adeiladau Eraill, 2008](#)

[Tai Fforddiadwy 2014](#)

[Strategaeth Rhwymedigaethau Cynllunio, 2014](#)

[CYD LP1 Datblygiadau Priodol yng Nghefn Gwlad, 2015](#)

[Datblygu Mwynau 2015](#)

[Archwiliad Bioamrywiaeth 2015](#)

[Goleuadau Goramlwg 2015](#)

[Llety Twristiaid Bach ei Effaith 2015](#)

[Tirweddau a Datblygu 2014](#)

[Ynni Adnewyddadwy Graddfa Fach 2015](#)

[Arallgyfeirio ar Ffermydd, 2015](#)

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Gellir cysylltu â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro drwy e-bost devplans@pembrokeshirecoast.org.yj neu drwy ffonio 0845 345 7275

Cynllun Datblygu Lleol

[Cynllun Datblygu Lleol Arfordir Penfro, 2010](#)

Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

[Asesiad Marchnad Dai Leol Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro, 2007](#)

[Asesiad Marchnad Dai Leol Sir Benfro – diweddariad 2012, Cyngor Sir Penfro, 2012](#)

Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

[Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro, 2010](#)

[Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro – Atodiad 2012, Cyngor Sir Penfro, 2012](#)

Canllawiau Cynllunio Atodol

[CCA Dylunio Cynaliadwy, 2011](#)

[CCA Tai Fforddiadwy – diweddariad technegol, 2013](#)

[CCA Colli Gwestai a Thai Gwestai, 2011](#)

[CCA Safonau Parcio, 2011](#)

[CCA Yr Amgylchedd Hanesyddol \(Archeoleg\), 2011](#)

[CCA Cynigion ar gyfer Ardal Gadwraeth, 2011](#)

[CCA Dylunio Blaen Siop Arfordir Penfro, 2011](#)

[CCA Lleoli a Dylunio Adeiladau Fferm Newydd, 2012](#)

[CCA Ynni Adnewyddadwy, 2012](#)

[CCA Rhwymedigaethau Cynllunio, 2011](#)

[CCA Gweithgareddau Hamdden, 2012](#)

[CCA Datblygiadau Bach eu Heffaith Yn Gwneud Cyfraniad Cadarnhaol \(Datblygiadau Un Blaned\) Arfordir Penfro, 2013](#)

[CCA Asesu Hygyrchedd, 2013](#)

[CCA Asesiad o Gymeriad y Dirwedd, 2011](#)

[CCA Asesiad o Gymeriad y Morlun, 2013](#)

[Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol yn Sir Benfro, 2011](#)

[Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt ar y Dirwedd a'r Amwynder Gweledol, 2013](#)

Parc Cenedlaethol Eryri

Gellir cysylltu â Pharc Cenedlaethol Eryri drwy e-bost cynllunio@eryri-npa.gov.uk neu drwy ffonio 01766 770274.

Cynllun Datblygu Lleol

[Cynllun Datblygu Lleol Eryri, 2011](#)

Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

Asesiad Marchnad Tai Lleol Gogledd Orllewin Cymru, Cyngor Sir Conwy, 2008-2010

Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru, Cyngor Sir Conwy, 2013

Canllawiau Cynllunio Atodol

CCA 1: Dyluniad Cynaliadwy yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, 2011

CCA 2: Ystyriaethau Datblygu Cyffredinol, 2011

CCA 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, 2011

CCA 4: Tai Fforddiadwy , 2011

CCA 5: Rhwymedigaethau Cynllunio, 2012

CCA 6: Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth, 2012

CCA 8: Llety Ymwelwyr, 2012

CCA 11: Tirweddau a Morluniau, 2014

Canllawiau eraill

Rheoli gwastraff adeiladu

Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru

Systemau draenio cynaliadwy

CIRIA The SuDS Manual (C697)

Susdrain

Trafnidiaeth Gynaliadwy

SUSTRANS (<http://www.sustrans.org.uk/wales>)

Atodiad 1

Rhestr Termau

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio Cymraeg clir lle bynnag y bo'n bosibl, ond mae cynllunio yn bwnc technegol ac mae rhai termau arbenigol yn anochel. Mae'r rhai pwysicaf neu a ddefnyddir amlaf wedi'u hesbonio isod; esbonnir termau eraill ym mhrif gorff y ddogfen.

Tai fforddiadwy: tai lle mae yna drefniadau diogel er mwyn sicrhau eu bod o fewn cyrraedd i'r rheiny sydd heb fod yn gallu fforddio tai ar y farchnad agored, gan gynnwys pobl sy'n eu meddiannu gyntaf a'r bobl sy'n dod ar eu hôl, gan gynnwys⁵⁸:

- **Tai rhent cymdeithasol:** yw tai sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- **Tai canolradd:** yw lle mae'r prisiau neu'r rhenti'n uwch na rhenti tai cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu renti ar y farchnad agored.

Cwrttil: y darn o dir sydd ynghlwm wrth adeilad.⁵⁹

Safle eithriedig: safle na fyddai fel arfer yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer tai. Mae'n bosibl caniatáu datblygu ar safleoedd o'r fath ar yr amod y bodlonir yr amodau penodol a amlinellir yn y polisi cynllunio lleol.⁶⁰

Datblygiadau deiliaid tai: yw cyflawni gweithrediadau (gan gynnwys codi adeilad) o fewn cwrttil annedd sy'n bodoli'n barod, at ddibenion ategol i fwynhad o'r annedd fel y cyfryw, neu godi neu adeiladu giatiau, ffensys, waliau neu ffyrdd eraill o amgáu ar hyd ffin cwrttil y tŷ annedd presennol.

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI): yw'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal yr awdurdod cynllunio lleol, gan gynnwys Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol baratoi un.⁶¹ Mae'n lasbrint ar gyfer datblygu mewn ardal benodol, sy'n amlinellu ac yn arwain polisiâu rheoli datblygu gofodol, strategol a manwl.

Datblygiad mawr: Mewn Parciau Cenedlaethol neu AHNE, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr sy'n fwy cenedlaethol na lleol o ran eu cymeriad. Ni ddylai datblygiadau mawr ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol neu AHNE ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Gallai hyn godi os gwelir, ar ôl archwiliad trwyadl, bod angen cyhoeddus sy'n drech na dim arall ac y byddai gwrthod caniatâd yn niweidiol dros ben i'r economi lleol a phan nad oes modd lleoli'r datblygiad mewn man arall neu ddiwallu'r angen mewn rhyw fodd arall. Gan hynny wrth asesu ceisiadau am ddatblygiadau mawr dylid asesu:

- yr angen am y datblygiad, yn nhermau ystyriaethau cenedlaethol, ac effaith ei ganiatáu neu ei wrthod ar yr economi lleol;
- y gost a'r posibilrwydd o ddarparu'r datblygiad y tu allan i'r ardal a ddynodwyd neu ddiwallu'r angen amdano mewn rhyw ffordd arall;

unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd a'r dirwedd, ac i ba raddau y gellid lliniaru hynny.⁶²

Microgynhyrchu: term a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel neu adnewyddadwy ar raddfa 'micro'. Mae'n cynnwys cynhyrchu ynni ar raddfa fach (gwres a thrydan) gan unigolion, busnesau bach a chymunedau i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. O dan Ddeddf Ynni 2004⁶³ diffinnir microgynhyrchu fel meddu ar allu o 45 kW ar gyfer micro-wres (thermol) a 50 kW ar gyfer micro-drydan. Mae'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref⁶⁴ yn amlinellu hawliau datblygu a

⁵⁸ Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, Llywodraeth Cymru. Mehefin 2006

⁵⁹ Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 7, Llywodraeth Cymru. Chwefror 2014

⁶⁰ Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, Llywodraeth Cymru. Mehefin 2006

⁶¹ Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 7, Llywodraeth Cymru. Chwefror 2014

⁶² Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 7, Llywodraeth Cymru. Chwefror 2014

⁶³ Deddf Ynni 2004, Rhan 2, Pennod 1, Adran 82

⁶⁴ Erthygl 2(3), Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

ganiateir ar gyfer gosod mathau penodol o gyfarpar microgynhyrchu ar, neu o fewn cwrtll anheddau, yn amodol ar feini prawf penodol.

Cais bach: cynnig sy'n ymwneud â darparu adeilad neu adeiladau lle bo'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn llai na 1,000 metr sgwâr; neu ddatblygiad ar safle sy'n llai nag 1 hecтар. Mae arwynebedd llawr yn golygu cyfanswm yr arwynebedd llawr mewn adeilad neu adeiladau.

Datblygiad Un Blaned: datblygiad sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd neu nad yw'n ei waethygu mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. I gychwyn, dylai ôl troed ecolegol Datblygiadau Un Blaned fod yn ddim mwy na 2.4 hecтар byd-eang y person o ran eu defnydd o adnoddau, a dylent ddangos potensial amlwg i symud tuag at ôl troed o 1.88 hecтар byd-eang.⁶⁵

Datblygu a ganiateir: caniatâd cyffredinol ar gyfer rhai dosbarthiadau diffiniedig o ddatblygiad neu ddefnydd o dir, yn bennaf o is gymeriad.⁶⁶ Mae'r dosbarth a ddefnyddir amlaf yn caniatáu ystod eang o estyniadau bach neu addasiadau i dai annedd, gan gynnwys technolegau microgynhyrchu.

Amodau Cynllunio: cyflwyno gofynion i fynd i'r afael â materion penodol ar ôl rhoi caniatâd cynllunio sy'n ymwneud yn deg ac yn rhesymol â'r datblygiad a ganiateir ar y safle neu dir cyfagos sydd dan reolaeth yr ymgeisydd. Mae'n rhaid i amodau cynllunio fod yn berthnasol, yn angenrheidiol, yn fanwl ac yn orfodadwy.⁶⁷

Rhwymedigaethau Cynllunio: darparu modd o sicrhau gwelliannau i ansawdd, neu leihau effaith andwyol cynigion datblygu. Mae'n rhaid i rhwymedigaethau fod yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio; cysylltu'n uniongyrchol â'r datblygiad; a bod yn rhesymol a gweddol gysylltiedig o ran graddfa. Yn aml maent yn rhagnodi natur y datblygiad, megis cyfran o dai fforddiadwy; sicrhau cyfraniad gan y datblygwr i wneud iawn am golled neu ddifrod a achosir gan y datblygiad (e.e. colli man agored); neu liniaru effaith datblygiad (e.e. trwy ddarpariaeth well o ran cludiant cyhoeddus).⁶⁸

Map cynigion: map sy'n dangos ffiniau statudol ac anstatudol ardaloedd a ddiogelir ac ardaloedd a neilltuwyd ar gyfer datblygiadau tai a chyflogaeth.

Egwyddor Agosatrwydd: y syniad bod dinasoedd, trefi a phentrefi cryno yn cynhyrchu'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gorau. Daw agosatrwydd â phobl, siopau, ysgolion a gofal iechyd yn agosach at ei gilydd. Mae'n hybu creadigrwydd ac arloesedd. Mae'n golygu llai o bellter i deithio: mae pobl yn fwy tebygol o gerdded neu feicio, sydd yn ei dro yn gwneud y strydoedd yn fwy diogel ac yn fwy croesawgar. Mae manteision amgylcheddol, hefyd, oherwydd bod angen llai o dir ac ynni.⁶⁹

Anheddau mentrau gwledig: datblygiad preswyl newydd ar fenter wledig sefydledig (gan gynnwys ffermydd), ail annedd ar fferm sefydledig ac weithiau annedd newydd ar fenter wledig newydd.⁷⁰

Hierarchaeth aneddiadau: mecanwaith ar gyfer trefnu aneddiadau yn nhrefn eu pwysigrwydd strategol, yn seiliedig ar ystod o feini prawf, gan gynnwys poblogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau a chymeriad.

Nodweddion Arbennig: Y nodweddion sy'n cyfuno i ddiffinio ardal a ddynodwyd fel Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain yn amrywio o agweddau tirwedd i nodweddion economaidd-gymdeithasol ac ieithyddol.

Canllaw cynllunio atodol: Canllaw a gyhoeddir ar gyfer meysydd neu bynciau penodol i nodi yn fanylach y ffordd y bydd polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu defnyddio o dan amgylchiadau penodol. Nid yw canllawiau cynllunio atodol yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond

⁶⁵ Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 6, Llywodraeth Cymru. Chwefror 2014

⁶⁶ Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

⁶⁷ Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 6, Llywodraeth Cymru. Chwefror 2014

⁶⁸ Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 6, Llywodraeth Cymru. Chwefror 2014

⁶⁹ The Proximity Principle: Why We Are Living Too Far Apart, Campaign to Protect Rural England, 2008.

⁷⁰ Nodyn Cynngor Technegol 6: Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig, 2011

os caiff ei baratoi yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, yna bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwysau sylweddol iddo.⁷¹

Datblygu cynaliadwy: yw'r broses ar gyfer cyrraedd y nod o gynaliadwyedd. Mae datblygu cynaliadwy yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenedlaethau mewn ffyrdd sy'n:

- Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal.
- Gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu'i derfynau – gan ddefnyddio'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.⁷²

Dosbarthiadau defnydd: cyfres o gategoriâu defnydd tir a ddefnyddir mewn cynllunio i ddiffinio cyfresi safonol o fathau o ddatblygiad, megis siopau (A1), tai annedd (C3) a diwydiant cyffredinol (B2).⁷³

Datblygiadau tai ar hap: cynigion datblygu ar safleoedd na chawsant eu neilltuo ar gyfer datblygu mewn Cynllun Datblygu Lleol.⁷⁴

⁷¹ Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru: Polisi ar baratoi Cynllun Datblygu Lleol, Rhagfyr 2005

⁷² Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 6, Llywodraeth Cymru. Chwefror 2014

⁷³ Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (SI 1987/764)

⁷⁴ Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 6, Llywodraeth Cymru. Chwefror 2014